# PERTHYN

Tachwedd 2022 Rhifyn 311



## Hadau Gobaith: Apêl Cymorth Cristnogol 2022

'. . . rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu.'

2 Corinthiaid 9:7

# Tân gwyllt . . .

Nos Wener fyddai noson yr Urdd yn Llithfaen. Byddai bob amser ryw gynnwrf mawr wrth ddod adref o’r ysgol oherwydd hon oedd y noson pryd y byddem yn dal y bws ar ein pen ein hunain ac yn treulio’r nos yn nhŷ Taid a Nain. Cerddem yr hanner milltir o’r pentref i gartref fy nhad ac yna ar ôl cwpaned o Ribena poeth, dychwelyd i’r hen ysgol i fwynhau cwmni plant y pentra a phentrefi cyfagos. Cyn mynd drwodd i’r neuadd, byddai’n rhaid galw yn yr Ystafell Snwcer, a ninnau’n teimlo fel oedolion yng nghwmni ieuenctid snwceraidd! Ond buan iawn y byddai’r hwyl yna’n dod i ben, wrth i ni gael ein harwain i’r neuadd i wrando ar siaradwr neu gymryd rhan mewn gweithgaredd. Dwi ddim yn cofio rhyw lawer am y siaradwyr heblaw am un, Nyrs Toffaridis (nid dyna’r sillafiad cywir!) yn sôn am ei thaith i wlad Israel. Dwi’n cofio oherwydd mai fi gafodd y fraint o wisgo’r ‘keffiyeh’, sgarff draddodiadol y Palestiniaid, a chael fy nghludo yn fy nychymyg o fywyd syml cefn gwlad Llŷn i fannau egsotig y Dwyrain Canol!

Beth bynnag am hynny, uchafbwynt y flwyddyn fyddai Noson Tân Gwyllt, Noson Gei Ffôcs, a byddai rhai o gymeriadau garw’r ardal, gyda help ambell blentyn brwdfrydig, wedi bod wrthi ers wythnosau yn casglu deunydd ar gyfer y goelcerth. Fe fyddai yna gystadleuaeth arlunio a ninnau’n cael hwyl fawr yn defnyddio lliwiau llachar i gyfleu cynnwrf y tân gwyllt a holl awyrgylch yr achlysur. ’Does gen i ddim cof o gael dim byd i’w fwyta, ond dwi’n cofio’r ail gwpanaid o Ribena poeth er mwyn cynhesu.

Tachwedd y pumed – noson o hwyl a sbri, a phawb â’i atgof am bobl a dathliadau, a hynny’n aml iawn heb unrhyw amgyffrediad o’r cefndir. Roedd rhywun yn cofio’r enw a chofio’r weithred, sef y cynllwyn i ddinistrio Tŷ’r Cyffredin, ond beth am y rheswm? Rheswm crefyddol oedd sail y cyfan a hynny wrth i Guy Fawkes droi at y traddodiad Catholig, ac ymhen amser gynllwynio gyda dau ŵr arall, Thomas Wintour a Robert Catesby, i fradlofruddio’r brenin a gosod

aelod o'r Eglwys Gatholig ar yr orsedd. Methiant fu'r cynllwyn a dienyddiwyd Fawkes ar 31 Ionawr 1606.

Wrth ddarllen hanes, mae yna bob amser berygl o gamddehongli a chyda hynny, gyffredinoli; cyflwyno sylwadau a gwersi sy'n addas yn unig i'r amgylchiadau. Dros bedwar cant o flynyddoedd yn ôl, roedd perthynas y byd gwleidyddol a chrefyddol yn wahanol iawn i'r hyn ydi hi heddiw a theimladau unigolion dros y ddau yn begwn i deimladau'r presennol. Ar ôl dweud hynny, mae yna awgrym yma o'r modd y gall rhywun golli golwg ar graidd y ffydd Gristnogol a rhoi bod i rywbeth sydd yn ei hanfod yn ddim byd mwy na thraddodiad ac arfer. Dyna fu'n fygythiad i'r Eglwys ar hyd y canrifoedd, ac yn rhwystr i fynd y tu hwnt i allanolion crefyddol er mwyn arwain unigolion, cynulleidfaoedd a chymundedau at graidd neges yr ymgnawdoliad, sef y ddealltwriaeth o gariad cyflawn Duw ym mherson yr Iesu.

Fe fyddai'n wir dweud bod hyn i'w weld ar ei waethaf ar hyn o bryd yn Rwsia gyda phen yr Eglwys Uniongred yn dangos cefnogaeth agored i weithredoedd anghyfreithlon ac annynol Pwtin, ond mae'n digwydd mewn llefydd eraill hefyd ac wedi digwydd ar hyd y canrifoedd, ac fe all ddigwydd yn ein bywydau ninnau hefyd. Fe all ddigwydd ym mywyd yr Eglwys pan fo rhywun yn ei ddyrchafu ei hunan o flaen unrhyw un ac unrhyw beth, ac fe all ddigwydd pan fyddwn yn colli golwg ar y ddealltwriaeth o gymod a brawdoliaeth. Bryd hynny mae person a gwaith yr Iesu mewn perygl o olygu dim, a rhyw 'pseudo Gristnogaeth' yn dod i fod. Y gwahoddiad i chi a fi yw caniatáu i'r Arglwydd gael ei le teilwng yn ein bywydau ac i Efengyl ei fab, Efengyl cariad, ein trawsnewid i fod yn gyfryngau bywyd yn ei amrywiol ffyrdd.

Ein gwaith yw rhoi bod i fywyd yn ei amrywiol ffyrdd a'n cymhelliad yw'r profiad o gariad perffaith Duw. Boed i ni'r argyhoeddiad a'r gwyleidd-dra i wneud yr hyn sy'n Gristnogol ac yn gywir.

Eifion

# Newyddion Ebeneser

## Cydymdeimlad . . .

Cyhoeddwyd marwolaeth Mrs Brenda Griffiths a dreuliodd y tair blynedd ddiwethaf yng Nghartref Cysgod y Coed, Llanilar. Mynegwyd ein cydymdeimlad â theulu Brenda yn Iwerddon a'i chyfeillion oll.

## Cofion . . .

Anfonwn ein cofion at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl ac yn eu cartrefi eu hunain.

## Gwasanaeth Diolchgarwch . . .

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch brynhawn Sul, 16 Hydref, o dan arweiniad ein Gweinidog. Braf oedd cael cyfarfod unwaith eto wyneb yn wyneb ac edrychir ymlaen at y Gwasanaeth Cymun brynhawn Sul, 6 Tachwedd am 2.15 pm.

# Newyddion Morfa

***Anfonwn ein cofion at*** William Griffiths a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at y rhai eraill a dderbyniodd driniaeth ddydd yn ystod y mis. Anfonwn ein cofion hefyd at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

***Dymuniadau gorau*** i Awel Jones sydd wedi symud i'w chartref newydd yn Glanceulan, Penrhyn-coch.

***Cydymdeimlo*** . . .
Trist yw cofnodi marwlaeth Mrs Lizzie Jones, Cartref Tregerddan. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu a'i chyfeillion yn Nhregerddan.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu a ffrindiau Mrs Brenda Griffiths, Cartref Cysgod y Coed.

Cydymdeimlwn hefyd ag Alwen ac Eifion Roberts, Dafydd ac Anna ar farwolaeth modryb i Alwen, sef Miss Eira Evans, Creunant.

---

## Cinio Bara a Chaws

Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yng Nghanolfan Sant Paul, Stryd y Baddon ddydd Llun,
**7 Tachwedd rhwng 12.00 a 1.30pm.**

**Croeso cynnes i bawb**

## Cymdeithas Gweddi a Choffi –
bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom

## Astudiaeth Ffydd a Phaned –
prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

# Dyddiadau i'w cofio . . .



**Cymdeithas y Morfa**
Nos Lun, **7 Tachwedd** am 7.00 o'r gloch yn y Festri
'Technoleg Iaith' yng nghwmni Rhodri ap Dyfrig



Prynhawn Llun, **21 Tachwedd** am 2.00 o'r gloch yn y Festri
'Croesi'r Swnt i Enlli' – cyflwyniad drwy luniau gan Marian Delyth

Croeso cynnes i bawb.

## Y Gymdeithas – 26 Medi 2022



Roedd cyfarfod cyntaf y tymor yn gyfle i gymdeithasu ac i wrando ar ddatganiadau gan y telynor proffesiynol, Robin Huw Bowen. Arweiniwyd y defosiwn gan Huw Evans. Dechreuodd Robin Huw Bowen chwarae'r delyn Geltaidd cyn symud at y delyn deires yn yr wythdegau. Teithiodd i bob cwr o'r byd i chwarae'r delyn deires

gan gymryd rhan mewn cyngherddau ar bob cyfandir ac mae'n dal i gael gwahoddiadau i ymuno mewn gwyliau telynau mor bell â Bogota, Colombia a De America. Cawsom ein cyfareddu a'n swyno gan amrywiaeth o gerddoriaeth a threfniannau unigryw Robin, o'r esmwyth a'r difrifol, megis *Y Dydd* sy'n addas ar gyfer angladd, i'r clasur bywiog o waith Nansi Richards, sef *Clychau Aberdyfi*. Diolchodd Lona Jones, ein cadeirydd, i Robin am noson dra arbennig.




## Y Gymdeithas – 10 Hydref

Cyfarfu'r Gymdeithas am yr ail dro ar 10 Hydref. Eleri a gymerodd y rhan ddefosiynol a Lona, ein cadeirydd, a gyflwynodd Glan Davies a ddaeth i siarad am ei lyfr *O'r Aman i'r Ystwyth*. Magwyd Glan a'i frawd ym Mrynaman, tref ddiwylliedig oedd yn canolbwyntio ar y capeli ac eisteddfodau lleol. Roedd cystadlu ar lwyfannau mewn corau, dramâu a llefaru unigol yn bwysig. Glöwr oedd tad Glan. Dysgodd ei deulu i wneud eu gorau ac i helpu eraill ond i beidio â mynd i lawr y pwll! Daeth Glan yn adnabyddus fel actor, siaradwr cyhoeddus a gweithiwr di-flino dros elusennau. Sylwodd Merêd ar ddawn Glan ac eraill pan oedd yn chwilio am dalent ar gyfer rhaglenni teledu fel '*Hob y deri dando*'. Mae ei ddawn gyfathrebu yn cael ei chydnabod drwy Gymru. Diolchodd Ifor Davies i Glan am noson ddifyr iawn lle cafwyd chwerthin braf gan y gynulleidfa wrth wrando ar ei straeon doniol!

# Yr Ysgol Sul

Mae'n hyfryd gweld y bwrlwm arferol wedi dychwelyd y tymor hwn ac mae wedi bod yn braf croesawu pawb yn ôl a chroesawu aelodau newydd.

Cynhaliwyd Llanllanast Diolchgarwch y Sul cyntaf yn Hydref gyda'r crefftwaith yn cyfrannu at y Gwasanaeth Diolchgarwch ar 16 Hydref pan welwyd cofnod o'r gwaith ar ffilm fideo.

Roedd cyflwyno stori *Creu'r Byd* yn ein harwain i ryfeddu ac i ddiolch ond yn codi'r cwestiwn a ydym yn gofalu am ein byd heddiw, a beth yw ein cyfrifoldeb ni at y rhai sydd yn profi sychder yn sgil cynhesu byd-eang? Wrth ddiolch am roddion y cynhaeaf mae cyfrifoldeb arnom i rannu ag eraill ac roedd cyflwyno Stori'r Pum Torth a Dau Bysgodyn yn ein hatgoffa am hynny.

Daeth cyfle i gefnogi Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru Hadau Gobaith sydd yn estyn cymorth i Kenya a Honduras trwy gyfrwng Cymorth Cristnogol. Felly, trefnwyd brecwast iach yn y festri cyn y Gwasanaeth Diolchgarwch. Yn ystod y gwasanaeth cyhoeddodd y bobol ifanc fod £137.13 mewn arian mân ar y blodyn haul enfawr (ac roedd mwy wedi ei gasglu hefyd). Diolch i bawb fu'n casglu.

Roedd geiriau'r ddau emyn a ganwyd: *Cofia bob amser, cofia ddweud diolch* a *Hon yw fy fflam fach i, rhanna ei golau hi* yn ein hatgoffa am bwysigrwydd Diolch a Hau Hadau Gobaith i eraill.

DIOLCH i BAWB am eu cymorth a'u cefnogaeth a diolch am y cyfraniadau at Apêl Hadau Gobaith.



# Dyma'r rhai fu'n mwynhau'r brecwast . . .






















Y rhai fu’n cymryd rhan yn y Gwasanaeth Diolchgarwch a’r Brecwast.



# Anrheg Nadolig . . .




**Edward Lhwyd**
Brynley F. Roberts
Gwasg Prifysgol Cymru
ISBN: 9781786837820
£16.99

Mae'r cofiant llawn, cyntaf hwn i Edward Lhwyd yn gyfraniad pwysig i hanes gwyddoniaeth ym meysydd botaneg, palaeontoleg a ieithyddiaeth.

'Mae'r [llyfr] wedi'i ymchwilio'n fanwl ac yn ymdrin â'i ddiddordebau lluosog mewn botaneg, palaeontoleg, ieithyddiaeth a disgyblaethau eraill. Mae llawer o fanylion ei gofiant, megis ei ymgecru/ymrafael â Woodward, yn ei wneud yn gymeriad hynod ddiddorol. Nid yw llawer o'r wybodaeth yma wedi bod ar gael yn y Saesneg o'r blaen ... a bydd darllenwyr yn gweld bod eu chwilfrydedd am Lhwyd yn cael ei wobrwyo'n helaeth yn y llyfr meistrolgar a gafaelgar hwn.'
Arthur Chater, awdur *Flora of Cardiganshire*

---

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Diolch hefyd i bawb sydd wedi anfon cyfraniadau i'r rhifyn hwn, yn lluniau ac adroddiadau.

Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr at Arwel Rocet (rocetarwel@yahoo.com) neu
Sharon (sharonwen527@btinternet.com ) erbyn **dydd Gwener, 18 Tachwedd 2022**, yn ddiffael, os gwelwch yn dda.

# Adnabod Aelod: Dolig Farrell



Yn Rotherham y dechreuodd Dolig ei bywyd a hynny am reswm arbennig – roedd ei mam yn aros yna ar y pryd ac fe ddaeth yr awr! Dychwelodd i Gymru a chan fod ei thad yn weinidog gyda'r Eglwys Fethodistaidd ac felly'n gorfod symud o un ardal i'r llall, bu'n byw yn Nhaliesin gan fynychu'r ysgol gynradd yno, yna Ardwyn, wedyn Machynlleth, cyn symud i Gaerdydd. Yng nghyfnod Caerdydd mynychodd Goleg Cyncoed gan hyfforddi fel athrawes a dechrau ar ei swydd gyntaf yn Canvey Island, Swydd Essex. Bu'r flwyddyn yn agoriad llygaid ac yn hyfforddiant gwych ar gyfer y dyfodol. Dychwelodd i Gymru, ac i Gyfronnydd ger Llanfair Caereinion i ddysgu mewn Ysgol Anghenion Arbennig i ferched a dyna fu maes Dolig trwy gydol ei gyrfa. Bu'n dysgu yn Leeds ac yn Nottingham lle bu'n ddirprwy, ac yn dilyn cyfnod o fagu teulu, dychwelodd i wneud yr un math o waith mewn clwstwr o ysgolion lleol.

Ymhen amser penderfynodd adael y byd dysgu a gweithio i gwmni oedd yn cynhyrchu deunydd addysgol i blant gydag anghenion arbennig a bu wrthi'n rhan o dîm oedd yn ymchwilio ac yn cynhyrchu llyfrau ac offer addysgol. Ar ôl ymddeol penderfynodd ddychwelyd i Geredigion gan fod ei brawd yn byw yng Nglandyfi,* a dewisodd setlo yn Aberystwyth. Tra oedd yn byw i ffwrdd, roedd yn aelod ffyddlon o'r Eglwys Anglicanaidd ond trwy gyfeillgarwch nifer fe benderfynodd ymaelodi yn y Morfa.

Dywedodd ei bod wedi mynychu eglwysi eraill yn Aberystwyth ond ar ôl mynychu arddangosfa yn y Morlan ac wedyn oedfa yn y Morfa, roedd yn teimlo'n hynod o gartrefol yn ein plith.

Mae'n mwynhau darllen a'r W.I. ymhlith pethau eraill. Yn ei geiriau ei hun 'Tipyn o bopeth!'

Croeso cynnes iawn, Dolig a braf cael eich derbyn yn gyflawn aelod.

Eifion

* *Bydd nifer ohonoch yn cofio ei brawd, Illtyd Griffiths, fel deintydd uchel ei barch yn Aberystwyth*. Gol.

# Newyddion a Gwaith Cytûn Waunfawr

Y siaradwr gwadd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cytûn Waunfawr, a gynhaliwyd ar 8 Hydref, oedd y Parch. Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfarfod dros Zoom ac roedd clywed Aled yn siarad am waith pwysig Cytûn gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'i gyfraniad tuag at greu Cymru'n Genedl Noddfa yn wirioneddol ysbrydoledig. Mae Aled hefyd yn allweddol yng nghynllun Llywodraeth Cymru i greu hybiau neu fannau cynnes ledled y wlad mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol.

Mae nifer ohonom o Gapel y Morfa yn aelodau o bwyllgor Cytûn Waunfawr o dan gadeiryddiaeth Anne Uruska. Does dim Cytûn yn nhref Aberystwyth ers nifer o flynyddoedd ond sefydlwyd yr un ar y Waun yn dilyn cau capel y Waun oedd yn gangen o Seilo ac yna'r Morfa. Mae'r grŵp yn rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol ac yn cyfarfod yn gyson. Mae'n gweithredu ar draws yr enwadau ac yn ymateb i anghenion sydd yn codi yn lleol ac yn ehangach e.e. cynnal gwasanaethau yn Hafan y Waun cyn y cyfnod clo, trefnu cyfnodau o weddi am heddwch i Wcráin a mannau eraill yn y byd, trefnu a chefnogi ciniawau bara a chaws Cymorth Cristnogol, ac erbyn hyn bod yn rhan o'r cynllun mannau cynnes.

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!
www.capelymorfa.cymru

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Trydar Capel y Morfa @capelymorfa, a chyfri Facebook

## Duw Cyfeillgarwch

Arglwydd,
diolchwn i ti am y ffrindiau a roddaist i ni
ac am bob perthynas o gariad ac ymddiriedaeth sydd rhyngom.

**Diolchwn am y rhai**
sy'n gwybod y gorau a'r gwaethaf amdanom
ac yn ein caru drwy'r cyfan.



**Diolchwn am y rhai**
sydd bob amser yn barod i rannu â ni
eu cydymdeimlad a'u cefnogaeth.

**Diolchwn am y rhai**
y medrwn chwerthin ac wylo yn eu cwmni.

**Diolchwn am y rhai**
sydd i ni yn gyfryngau dy gyfeillgarwch dwyfol dy hun.

Arglwydd,
clyw ein hymbiliau ar ran dy Eglwys fyd-eang,
cymdeithas dy gyfeillion di,
o bob cenedl, hil ac iaith;
ar ran y rhai sy'n dioddef gwawd a gwrthwynebiad
oherwydd eu ffyddlondeb i ti;
ar ran y rhai fu unwaith yn gyfeillion i ti,
ond sydd bellach wedi dy anghofio;
ar ran y rhai na chawsant erioed gyfle i'th adnabod;
ar ran y rhai sy'n unig, yn amddifad ac yn ddigyfaill.

Arglwydd, gwna ni'n gyfryngau dy gariad,
fel y cânt wybod llawenydd dy gyfeillgarwch.
Amen

(Elfed ap Nefydd Roberts o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis)

# Blodau Mis Tachwedd



**6 Tachwedd**: Enid Jones
**13 Tachwedd**: Deian a Siân
**20 Tachwedd**: Teulu'r Richmond
**27 Tachwedd**: Mary Jones ac Eileen Jones

*Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu henwau ar y rhestr tan ddiwedd y flwyddyn.*

## SULIAU TACHWEDD 2022

**6 Tachwedd** – Eifion Roberts – yn y capel ac ar Zoom
**13 Tachwedd** – John Tudno Williams – yn y capel ac ar Zoom
**20 Tachwedd** – Eifion Roberts – Gwasanaeth teulu – yn y capel ac ar Zoom
**27 Tachwedd** – Meirion Morris – yn y capel ac ar Zoom

Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch, ac os hoffech dderbyn y ddolen i ymuno ag unrhyw un ohonynt ar Zoom, cysylltwch ag Eifion ar eifionroberts095@btinternet.com